rad Cymru Wales roles & key skills

rad Cymru Wales is a paid eight-month traineeship within a Welsh independent television production company which includes full training throughout the placement.

There are **twelve positions available** across three roles: Researcher (Development or Production), Edit Assistant and Production Team Assistant.

You don't have to apply for a specific role but here's our quick guide to each one so you can tailor your application.

Researcher (Development or Production)

Are you brimming with ideas, creativity and love watching telly? Do you love talking to people, have an eye for a story and a curiosity to know and find out the facts? You could be perfect to develop your skills as a **Researcher.**

Key responsibilities:

- Assisting the teams with tasks such as finding people to star in TV shows (called contributors) and building relationships with them so they feel comfortable
- Assisting with setting up shoots
- Researching a wide variety of subjects
- Sourcing props and locations for programmes
- Fact checking
- Developing ideas for programmes

Key skills: friendly, good phone skills, love researching ideas, have an instinct for a good story, have excellent written, interpersonal and organizational skills, work well in a team and under pressure.

The aim of the Researcher role is to support the editorial team (Assistant Producer, Producer, Series Producer) to organise, plan and research everything that will happen on screen during the programme/series, including contributors and locations.

Read more about the Researcher role on the ScreenSkills website.

Production Team Assistant

Are you a whizz at admin and spreadsheets or love organising and have a great eye for detail? We would love to help you develop those skills into the role of **Production Team Assistant.**

- Assisting the Production Co-Ordinator/ Manager with tasks related to the smooth running of the creation of a programme or series.
- Processing paperwork
- Organising release forms, copyrights and clearances

BBC NATIONS & REGIONS

Cymru Greadigol Creative Wales

Private & Confidential

- Processing invoices and timesheets
- Booking travel, transport and accommodation
- Supporting in the creation of call sheets

Key skills: Excellent organisational skills, able to use your initiative, a keen eye for detail, flexible, a good learner who works well in a team and under pressure.

The aim of the Production Team Assistant role is to provide administrative, logistical and organisational support to the entire team and assists the Production Co-Ordinator and Production Manager to ensure the smooth running of the creation of the programme/series.

Read more about the Production Assistant role on the ScreenSkills website.

Edit Assistant

Do you know your way round an edit suite or just a pro at iMovie Maker? Training as **Edit Assistant** could be just for you.

- Completing post-production paperwork
- Digitising footage
- Log rushes
- Syncing sound
- Providing edit support to facilities manager

Key skills: familiar with editing, good with computers, friendly, organised, has knowledge of media files. works well in a team.

The aim of the Edit Assistant role is to provide support to the Editing team by organizing meta-data, digitising footage and transferring additional editing materials.

Read more about the Edit Assistant role on the ScreenSkills website.

rolau a sgiliau allweddol rad Cymru Wales

Hyfforddeiaeth wyth mis â thâl o fewn cwmni cynhyrchu teledu annibynnol Cymreig yw **rad Cymru Wales** ac mae'n cynnwys hyfforddiant llawn trwy gydol y lleoliad.

Mae **deuddeg lleoliad ar gael** mewn tair rôl: Ymchwilydd (Datblygu / Cynhyrchu) Cynorthwyydd Golygu a Chynorthwyydd Tîm Cynhyrchu.

Nid oes rhaid i ti wneud cais am rôl benodol ond dyma ein canllaw cyflym i bob un er mwyn i ti allu teilwra dy gais.

Ymchwilydd (Datblygu / Cynhyrchu)

Wyt ti'n llawn syniadau, creadigrwydd ac yn caru gwylio'r teledu? Wyt ti wrth dy fodd yn siarad â phobl? Oes gen ti lygad am stori a chwilfrydedd i wybod mwy a darganfod y ffeithiau? Fe allet ti fod yn berffaith i ddatblygu dy sgiliau fel **Ymchwilydd.**

Cyfrifoldebau allweddol:

- Cynorthwyo'r timau gyda thasgau fel dod o hyd i bobl i serennu mewn sioeau teledu / (fe elwir y bobl hynny yn gyfranwyr) a meithrin perthynas â nhw fel eu bod nhw'n teimlo'n gyfforddus
- Ymchwilio i amrywiaeth eang o bynciau
- Dod o hyd i bropiau a lleoliadau ar gyfer rhaglenni
- Gwirio ffeithiau
- Datblygu syniadau ar gyfer rhaglenni

Sgiliau allweddol: bod yn gyfeillgar, bod â sgiliau ffôn da, bod wrth dy fodd yn ymchwilio i syniadau, bod â greddf am stori dda, bod â sgiliau ysgrifennu, rhyngbersonol a threfnu rhagorol, gweithio'n dda mewn tîm ac o dan bwysau.

Nod rôl yr Ymchwilydd yw cefnogi'r tîm golygyddol (Cynhyrchydd Cynorthwyol, Cynhyrchydd, Cynhyrchydd Cyfres) i drefnu, cynllunio ac ymchwilio i bopeth a fydd yn digwydd ar y sgrin yn ystod y rhaglen/ y gyfres, gan gynnwys cyfranwyr a lleoliadau.

Galli ddarllen mwy am rôl yr Ymchwilydd ar wefan ScreenSkills

Cynorthwy-ydd Tîm Cynhyrchu

Wyt ti'n wych yn weinyddol a thalentog â thaenlenni ac yn drefnydd diguro? Oes gen ti hefyd lygad am fanylion? Fe fyddem ni wrth ein bodd yn dy helpu i ddatblygu'r sgiliau hynny i rôl **Cynorthwyydd Tîm Cynhyrchu**.

- Cynorthwyo'r Cydlynydd/Rheolwr Cynhyrchu gyda thasgau sy'n ymwneud â rhediad esmwyth y broses o greu rhaglen neu gyfres

- Prosesu gwaith papur
- Trefnu cytundebau, hawlfreintiau a chliriadau
- Creu a chasglu cytundebau
- Prosesu anfonebau a thaflenni amser
- Bwcio teithio, cludiant a llety

Sgiliau allweddol: Sgiliau trefnu rhagorol, defnyddio dy ysgogiad dy hun, llygad craff am fanylion, hyblygrwydd, dysgu'n da a gweithio'n dda mewn tîm ac o dan bwysau.

Nod rôl Cynorthwyydd y Tîm Cynhyrchu yw darparu cefnogaeth weinyddol, logistaidd a threfniadol i'r tîm cyfan a chynorthwyo'r Cydlynydd Cynhyrchu a'r Rheolwr Cynhyrchu i sicrhau rhediad esmwyth wrth greu'r rhaglen/cyfres.

Galli ddarllen mwy am rôl Cynorthwyydd Tîm Cynhyrchu ar wefan ScreenSkills

Cynorthwyydd Golygu

Wyt ti'n eitha cyfarwydd gydag ystafell olygu neu'n serennu wrth ddefnyddio iMovie Maker? Gall hyfforddi fel Cynorthwyydd Golygu fod yn berffaith i ti.

- **Cwblhau gwaith papur ôl-gynhyrchu**
- **Digido ffilm**
- **Logio deunydd wedi ei ffilmio**
- **Syncio sain**
- **Darparu cymorth golygu i'r rheolwr cyfleusterau**

Sgiliau allweddol: bod yn gyfarwydd â golygu, yn dda gyda chyfrifiaduron, yn gyfeillgar, yn gyfarwydd â ffeiliau cyfryngau, yn drefnus ac yn gallu gweithio'n dda fel rhan o dîm.

Nod rôl y Cynorthwyydd Golygu yw rhoi cymorth i'r tîm Golygu drwy drefnu meta-ddata, digideiddio ffilm a throsglwyddo deunyddiau golygu ychwanegol.

Galli ddarllen mwy am rôl Cynorthwyydd Golygu ar wefan ScreenSkills